

Agenda – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15	0300 200 6565
	SeneddHinsawdd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00–09.15)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

Cyfarfod cyhoeddus

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (09.15)

2 Rheoli'r amgylchedd morol – sesiwn dystiolaeth 1: Cyfoeth Naturiol Cymru

(09.15–10.15)

(Tudalennau 1 – 36)

Rhian Jardine, Pennaeth Cynllunio Datblygu a Gwasanaethau Morol – Cyfoeth
Naturiol Cymru

Mary Lewis, Rheolwr Mannau Cynaliadwy Tir a Mor – Cyfoeth Naturiol Cymru

Dr Jasmine Sharp, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoleiddio Morol –
Cyfoeth Naturiol Cymru

Dogfennau atodol:

Papur briffio: Morol

Papur – Y Gweinidog Newid Hinsawdd (ymateb i lythyr gan y Cadeirydd 2



Tachwedd 2021)

Papur – Cyfoeth Naturiol Cymru

Egwyl (10.15–10.25)

3 Rheoli'r amgylchedd morol – sesiwn dystiolaeth 2: datblygwyr ynni morol

(10.25–11.25)

(Tudalennau 37 – 46)

Jess Hooper, Rheolwr Rhaglen – Ynni Morol Cymru

David Jones, Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Blue Gem Wind

Dogfennau atodol:

Papur – Ynni Morol Cymru (Saesneg yn unig)

Papur – Blue Gem Wind (Saesneg yn unig)

Egwyl (11.25–11.40)

4 Rheoli'r amgylchedd morol – sesiwn dystiolaeth 3: cynllunio morol ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

(11.40–12:40)

(Tudalennau 47 – 66)

Claire Stephenson, Uwch-gynllunydd Cadwraeth – RSPB Cymru

Clare Trotman, Pennaeth Cadwraeth Cymru (Dros Dro) – Cymdeithas

Cadwraeth Forol

Emily Williams, Cyd-gadeirydd, Gweithgor Morol – Cyswllt Amgylchedd Cymru

Dogfennau atodol:

Papur – RSPB Cymru (Saesneg yn unig)

Papur – Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (Saesneg yn unig)

Papur – Cyswllt Amgylchedd Cymru (Saesneg yn unig)

Egwyl cinio (12.40–13.20)

Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.20–13.30)

5 Rheoli'r amgylchedd morol – sesiwn dystiolaeth 4: carbon glas ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig

(13.30–14.30)

(Tudalennau 67 – 81)

Sue Burton, Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro

Sean Clement, Arbenigwr Adfer Moroedd – WWF Cymru

Clare Trotman, Pennaeth Cadwraeth Cymru (Dros Dro) – Cymdeithas

Cadwraeth Forol

Dr Richard Unsworth, Athro Cyswllt mewn Bioleg Forol, Prifysgol Abertawe, a

Chyfarwyddwr Project Seagrass

Dogfennau atodol:

Papur – Sue Burton (Saesneg yn unig)

Papur – WWF Cymru (Saesneg yn unig)

Papur – Dr Richard Unsworth (Saesneg yn unig)

6 Papurau i'w nodi

(14.30)

6.1 Addasu i newid hinsawdd

(Tudalennau 82 – 83)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â

chynllun addasu hinsawdd i Gymru

6.2 Gollyngiadau carthion

(Tudalennau 84 – 85)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn perthynas â gollyngiadau carthion heb eu caniatáu

6.3 Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 86 – 87)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ynghylch

Fframweithiau Cyffredin

6.4 Bil yr Amgylchedd

(Tudalennau 88 – 89)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, at y Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau ym Mil Amgylchedd y DU

6.5 Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 – polisiau ynni adnewyddadwy

(Tudalennau 90 – 96)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth at y Cadeirydd gan Non Davies ar ran Preswylwyr Moelfre mewn perthynas â pholisiau ynni adnewyddadwy yn nogfen Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru (Saesneg yn unig)

Gohebiaeth at y Cadeirydd gan Clive Goodridge a Kate Watson mewn perthynas â pholisiau ynni adnewyddadwy yn nogfen Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru (Saesneg yn unig)

Gohebiaeth at y Cadeirydd gan Dr Dean mewn perthynas â pholisiau ynni adnewyddadwy yn nogfen Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru (Saesneg yn unig)

6.6 Canolfan Ganser Felindre

(Tudalen 97)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan unigolyn ynghylch lleoliad arfaethedig Canolfan Ganser Felindre (Saesneg yn unig)

- 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (14.30)

Cyfarfod preifat (14.30–15.30)

- 8 Rheoli'r amgylchedd morol – trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitemau 2,3,4 a 5
- 9 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd
- 10 Trafod Blaenraglen Waith y Pwyllgor

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

1 Rhagfyr 2021

Annwyl

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 2 Tachwedd yn gofyn am y newyddion diweddaraf ynghylch yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith Gwledig 'Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig'.

Amgaeaf gyda'r llythyr hwn ddiweddariad ar yr holl argymhellion a gyflwynwyd. Amgaeaf yn ogystal ddiweddariad ynghylch ein rhaglen Carbon Glas yng Nghymru a datblygiadau ym maes cynllunio gofodol morol.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 20
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar frys. Dylai wneud hynny erbyn yr haf 2020. Dylai'r strategaeth ganolbwyntio ar yr angen i ddefnyddio dulliau lleol a dulliau ar lefel rhwydwaith i gyflawni amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig unigol lle y bo'n briodol. Dylai'r fframwaith a'r cynllun gweithredu fod yn rhan ategol o'r strategaeth. I gyd-fynd â'r strategaeth, dylid darparu esboniad o sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu'r gwaith o Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn barhaus. Dylai'r strategaeth fod yn destun ymgynghoriad llawn a dylid ei hadnewyddu o bryd i'w gilydd

Ymateb

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gan Weinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sut i gael mewnbwn gan sylfaen ehangach o randdeiliaid a mwy o awdurdodau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Gallai hyn gynnwys ehangu'r grŵp i gynnwys aelodau ychwanegol neu greu is-grwpiau perthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad y trafodaethau hyn.

Ymateb

Yn ei swydd fel Gweinidog â phortffolio gwahanol, sefydlodd Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAs) yn 2014 i roi cyngor ac arweiniad ar sut i reoli'n rhwydwaith o MPAs. Rwyf o'r farn bod cynrychiolaeth briodol o ystod eang o randdeiliaid yn aelodau o'r grŵp hwn, a bod ganddynt brofiad eang o reoli'n rhwydwaith o MPAs. Mae'r grŵp llywio'n parhau i ysgwyddo'i swyddogaeth sylfaenol gan oruchwylio prosiectau gwerthfawr a buddiol o fewn y Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Gwnaeth fy swyddogion sefydlu is-grŵp Cydnerthedd Morol o WMAAG er mwyn ehangu'r cylch o bobl sy'n cael trafod ac ystyried polisi bioamrywiaeth môr. Mae cylch ehangach o bobl sy'n cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau yn cael bod yn aelod o'r is-grŵp Cydnerthedd. Mae'n atebol i WMAAG a'r Grŵp Llywio ar Reoli'r Rhwydwaith MPAs.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cyflwyno dyletswyddau i Weinidogion Cymru, yn debyg i'r dyletswyddau ar Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a dylent adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn

Ymateb

Yn ei swydd fel Gweinidog â phortffolio gwahanol, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig adroddiad ar Brexit a'n Moroedd a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig: [Ymateb i ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd a'r camau nesaf tuag at bolisi pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol \(15 Medi 2020\) | LLYW.CYMRU](#). Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael mewn ffordd strategol gref â physgodfeydd a dyframaethu ac i ddatblygu polisi pysgodfeydd mewn cydweithrediad â'i rhanddeiliaid.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, ar gyfer dull gweithredu ar sail ardal a fyddai'n gweld awdurdodau rheoli yn rhoi swm o arian yn y pot sy'n gymesur â maint yr ardal warchoddedig y mae ganddynt gyfrifoldeb amdani. Dylai'r cyllid hwn fod yn ychwanegol at y cyllid ar gyfer y camau yn y Cynllun Gweithredu, yn hytrach nag yn lle'r cyllid hwnnw.

Ymateb

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gan Weinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, mewn trafodaeth â phum Grŵp Awdurdod Perthnasol Cymru, sut y bydd Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn datblygu dull mwy integredig o weithio gyda'r grwpiau hyn

Ymateb

Ers sefydlu'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, mae nifer o Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ynghyd â Swyddog Safleoedd Morol Ewropeaidd (EMSO) wedi dod yn aelodau ohono, i gynghori'r grŵp.

Mae fy swyddogion wedi ystyried opsiynau ar gyfer ymgysylltu â nhw ymhellach a chynnwys Grwpiau Awdurdodau Perthnasol yn WMAAG a gallaf gadarnhau bod ganddynt gynrychiolaeth dda bellach ar WMAAG ac is-grŵp Cydnerthedd WMAAG.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r nifer benodol o staff yng nghanen cadwraeth forol Is-adran y Môr a Physgodfeydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

Ymateb

Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ym mis Rhagfyr 2019 i ymateb i'r argymhelliad hwn. Rwyf am ofyn i'm swyddogion ddangos y llythyr i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 7

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth dwristiaeth sydd ar ddod yn rhoi sylw i fioamrywiaeth a chadwraeth forol

Ymateb

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Diwylliant a Chwaraeon gyhoeddi Blaenoriaeth Economi Ymwelwyr 2020-25 Llywodraeth Cymru yn 2020. Un o brif amcanion y strategaeth yw datblygu twristiaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau ei buddiannau economaidd, ond gan wneud hynny mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy, gan gynnwys yn yr amgylchedd morol.

Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo 'Cynaliadwyedd Amgylcheddol' yn enwedig y defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chyrrff sy'n ymdrin â gwarchod a rheoli'n tirweddau hardd, gan gynnwys amgylchedd y môr, i sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei gyflawni.

Mae fy swyddogion yn cydweithio â'r Is-adran Twristiaeth a Croeso Cymru sydd hefyd yn aelodau o WMAAG. Mae'r aelodau'n cydweithio'n glos i ddatblygu Cynllun Datblygu Adferiad Glas gyda'i nod o gryfhau amgylchedd ein moroedd.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector twristiaeth bywyd gwyllt morol i'w gwahodd i Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) a dylai roi diweddariad ar hynt sefydlu is-grŵp Bioamrywiaeth o Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.

Ymateb

Gwnaeth fy swyddogion drafod yr argymhelliad hwn gydag aelodau WMAAG i awgrymu cynrychiolydd addas ar gyfer y sector. Cytunwyd nad oes yr un sefydliad yn cynrychioli'r sector twristiaeth bywyd gwyllt y môr a daethpwyd i'r casgliad y byddai'r grŵp yn gynrychiolydd addas, gan ei fod yn cynnwys mudiadau fel RSPB ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth bywyd gwyllt.

Cyfarfu'r Gweinidog Newid Hinsawdd ag aelodau WMAAG yn ddiweddar a chefnogi ei gynigion ar gyfer yr Adferiad Glas. Mae'r Gweinidog wedi gofyn i aelodau weithio gyda swyddogion yn ystod tymor y Senedd hwn i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer ei gyflawni.

Y bwriad yw y bydd y cynllun yn esbonio sut i caiff ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, a gwaith cyfredol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru, eu rhoi ar waith. Bydd yn cynnwys hefyd sut i hybu dealltwriaeth o'r cefnogaeth, ymgyhoeddwr a buddsoddi cynaliadwy hirdymor

mewn ecosystemau morol gwydn, gan roi ffordd gydlynol o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur.

Bydd y grŵp yn ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid fel rhan o'i fandad diweddaraf i ddatblygu Cynllun Gweithredu Adferiad Glas.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw mesurau rheoli wedi eu gweithredu eto o ganlyniad i Brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru ar gyfer gweithgareddau risg uchel, a gyhoeddwyd yn 2017. Dylai gyflwyno ymgynghoriad ar opsiynau rheoli ar y gweithgareddau hyn ar frys. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar amserlen gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cwblhau'r asesiadau sy'n weddill, ond ni ddylai hynny fod yn hwyrach na mis Ionawr 2021 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru asesu lefel yr adnoddau fydd eu hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau'r gwaith hwn

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CNC i ddatblygu prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Yn 2016, rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal 516 o asesiadau o offer pysgota. Mae 70 wedi dod i law CNC a disgwylir y bydd 39 o asesiadau o offer llusg ar waelod y môr yn cyrraedd ym mis Mawrth 2022.

Mae prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth a byddaf yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus unwaith y bydd yr holl asesiadau o offer llusg a chynigion ar gyfer mesurau rheoli wedi'u cwblhau.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor ddymunol fyddai gwneud y gwaith o gynhyrchu adroddiadau cyflwr nodweddion ar lefel safle a chasglu gwybodaeth fonitro berthnasol yn ofyniad statudol

Ymateb

Mae data ac adroddiadau monitro ar lefel safle yn hanfodol er mwyn deall cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru. Maent yn llywio'r sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi rheolaeth effeithiol ac ymdrechion i gyflawni a chynnal cyflwr ffatriol nodweddion.

Mae nifer o ofynion yn dylanwadu ar asesiadau cyflwr ar lefel safle yng Nghymru, gan gynnwys: rheoliad 9A o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017; rheoliad 6A o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau ar y Môr; adran 124 yn adrodd ar rwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig gan Weinidogion Cymru i'r Senedd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009; Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016; rheoliadau 10 a 13 o Reoliadau Strategaeth Forol 2010; ac adroddiadau ar lefel nodwedd gan Lywodraeth y DU i Gomisiwn OSPAR. Er nad yw'r rhain yn nodi gofynion statudol penodol, dylid cydnabod eu bod yn sbarduno asesiadau cyflwr ar lefel safle gan fod hynny'n ffordd allweddol o sicrhau'r adroddiadau sydd eu hangen.

Mae CNC wedi adolygu sut i gynnal asesiadau o gyflwr safleoedd MPA drwy brosiect Gwella Adroddiadau Asesu Cyflwr ar lefel Safle Morol a ariennir gan EMFF. Caiff canfyddiadau'r prosiect hwn a'r broses a ddatblygir ddod yn rhan o rwymedigaethau adrodd CNC mewn cylch 6 blynedd.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod bylchau tystiolaeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn cael sylw drwy roi'r Cynlluniau Tystiolaeth Morol a'r Cynlluniau Tystiolaeth Pysgodfeydd ar waith

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru'n dal i weithio'n glos ag CNC, JNCC a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth forol ac i fonitro'r gwaith sy'n cael ei wneud i gasglu'r dystiolaeth y dangosodd Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru bod ei hangen. Mae hynny'n

cynnwys y wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen i ni allu cyflawni'n rhwymedigaethau o ran y rhwydwaith Ardaloedd Gwarchoddedig.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar hynt gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol posibl. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn hwyrach na mis Chwefror 2020 fan bellaf.

Ymateb

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Parthau Cadwraeth Morol a thîm y prosiect wedi parhau i gyfarfod a chydweithio ar nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl yn nyfroedd Cymru ac mae cyfres o gyfarfodydd rhithwir wedi'u cynnal.

Mae prosiect Cwblhau Rhwydwaith yr MPA yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ond dylwn nodi bod holl adrannau Llywodraeth Cymru o dan straen ar hyn o bryd yn bennaf oherwydd pwysau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'n hymateb i bandemig Covid-19. Mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar ein hadnoddau ac ar allu swyddogion i gynnal rhaglenni gwaith eraill. Bydd swyddogion yn lansio rhag-ymgynghoriad ar ddechrau 2022 i gasglu tystiolaeth cyn ymgynghori'n ffurfiol.

Rwy'n parhau'n ymwybodol o'r angen i sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn cael eu cynnwys a'u bod yn cael cyfle i ddweud eu dweud er mwyn sicrhau eu cefnogaeth. Bydd amserlenni'r prosiect yn adlewyrchu'r gofyn cyfreithiol o dan Adran 119(10) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, 2009, ynghylch ymgynghori cyn dynodi.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ystyried, fel rhan o'i waith, yr angen am ddynodiadau Parthau Cadwraeth Morol gwarchoddedig iawn. Dylid ymgynghori'n helaeth â phartïon â buddiant, fel pysgotwyr, er mwyn llywio'r ystyriaeth hono.

Ymateb

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gan Weinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddatblygu cynllun ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar gyfer rhywogaethau symudol.

Ymateb

Rwyf wedi ymrwmo i ystyried yr angen i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru fel rhan o brosiect Cwblhau Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gwneud y gwaith fesul cam, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddynodi cynefinoedd. Er hynny, mae dynodi er lles rhywogaethau symudol yn dal i fod yn rhan o'r drafodaeth.

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu gomisiynu asesiad o'r effaith ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn sgil ymadael â'r UE, gan gynnwys y posibilrwydd o gollu mynediad at ymchwil, sefydliadau a chyllid yr UE. Wrth wneud hynny, dylai egluro sut y bydd yn lliniaru unrhyw effaith o'r fath.

Ymateb

O'r £375m o gyllid rhanbarthol blyneddol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei gael gan yr UE, defnyddiwyd £60m i ariannu datblygu adnoddau ymchwil ac arloesi. Nid yw'r Gronfa Ffyniant a Rennir newydd y mae Llywodraeth y DU wedi addo a fydd yn llwyr gwneud iawn am yr holl arian a gollir, wedi cyrraedd eto. Nid yw'n glir sut y caiff y gronfa hon ei dyrannu i weinyddiaethau datganoledig ond yr wyf yn pryderu y bydd yn llai na'r £375m a oedd yn dod i ni.

Mae Llywodraeth Cymru, trwy roi ein Rhaglen Lywodraethu ar waith, yn ymrwmo i gyflwyno cynlluniau adfer trwy fuddsoddiad yn seiliedig ar anghenion pobl Cymru. Byddwn

yn cyhoeddi Cyllideb Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr a byddwn yn ceisio sicrhau'r setliad tecaf posibl i wasanaethau cyhoeddus Cymru i sicrhau Cymru fwy llewyrchus a gwyrdd.

Mae'r Môr a Physgodfeydd yn dal i ddatblygu cynigion ar gyfer ariannu cynllun i olynu'r EMFF ar gyfer 2022/23.

Bydd buddsoddi drwy gynllun sy'n olynu'r EMFF yn cyfrannu at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ogystal â'r egwyddorion a'r ymrwymadau penodol yn y Rhaglen Lywodraethu ynghyd ag ymrwymadau a wnaed yn y Cynlluniau JFS a Rheoli Pysgodfeydd.

Y diweddaraf ynghylch cynllunio gofodol morol

Mabwysiadwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru ym mis Tachwedd 2019. Gyda Datganiad Polisi Morol y DU, mae'n gosod fframwaith strategol ar gyfer datblygu moroedd Cymru yn gynaliadwy. Ar ôl ei gyhoeddi, cyhoeddwyd Canllawiau Gweithredu, i lywio'r defnydd ymarferol o bolisïau'r Cynllun a helpu i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gyson. Mae swyddogion wedi gweithio gydag llawer o awdurdodau cyhoeddus i roi'r Cynllun ar waith.

Cyhoeddwyd Fframwaith Monitro ac Adrodd ar gyfer y Cynllun Morol ym mis Ionawr 2020. Bydd yn sail i'r adroddiad adolygu a monitro ffurfiol cyntaf ar y Cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2022. Mae swyddogion wedi cynnal Arolwg o Ddefnyddwyr fydd yn bwydo'r adroddiad a'r bwriad yw cynnal ail Arolwg o Ddefnyddwyr yng ngwanwyn 2022.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Morol, mae swyddogion wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ffordd o roi ei bolisïau ar waith ar sail gofodol, gan roi cyfeiriad a chyd-destun gofodol ar gyfer datblygiadau.

Drwy'r prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol Morol (SMMNR) sydd newydd ei gwblhau, cynhaliodd swyddogion arolwg a map ecolegol o wely'r môr i helpu i gynllunio ar gyfer y sectorau ynni ffrwd llanw, ynni tonnau a dyframaeth. Mae pecyn mapio a thystiolaeth amgylcheddol ar ffurf 'Byrddau Stori' rhyngweithiol ar-lein wedi'u cyhoeddi i rannu'r fethodoleg fapio ac allbynnau'r prosiect, er mwyn i ddefnyddwyr allu canolbwyntio ar ardaloedd neu ystyriaethau amgylcheddol penodol.

Defnyddiwyd allbynnau prosiect SMMNR, ynghyd â gwaith i ddeall yn well natur rhyngweithiau gofodol traws-sector posibl ym moroedd Cymru, i ddatblygu Canllawiau Lleoli Sectorol (SLG) ar gyfer y sectorau ynni ffrwd llanw, ynni tonnau a dyframaeth. Nod yr SLG, drwy roi darlun o wasgariad adnoddau naturiol ac ystyriaethau cysylltiedig mewn perthynas â defnydd cynaliadwy, yw helpu i lywio gweithgarwch i'r ardaloedd all cynnal datblygiadau newydd orau heb beryglu ecosystemau morol.

Fel rhan o ddull gofodol o roi'r cynllun ar waith, mae Gweinidogion Cymru wedi dechrau gweithio'n ddiweddar i fapio Ardaloedd Adnoddau Strategol (AAS) posibl i nodi a chymhwyso polisi'r Cynllun Morol ar gyfer diogelu ardaloedd lle ceir adnoddau allweddol. Cafodd y dull o nodi AASau posibl a'r egwyddorion dylunio ar gyfer datblygu AASau eu datblygu ar y cyd â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG).

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi mewnbwn cynllunio morol hefyd er budd amrywiaeth o fentrau ledled y DU i ddefnyddio adnoddau gwynt sefydlog ac arnofiol ar y môr yn gynaliadwy.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn cyhoeddi SLG ar gyfer y sectorau ffrwd llanw, ynni tonnau a dyframaeth ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â datblygu AASau posibl, gan ymgynghori ar gynigion. Byddwn hefyd yn adrodd yn 2022 ar effaith polisiâu'r Cynllun Morol a'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni amcanion y Cynllun ac, fel rhan o'r broses adrodd hon, byddwn yn ystyried yr angen i ddiwygio'r Cynllun Morol neu ei ail-gynllunio yng nghyd-destun tirwedd forol y DU sy'n newid yn gyflym.

Y diweddaraf am rôl gynyddol Carbon Glas yng Nghymru

Rwy'n cydnabod y rôl gynyddol bwysig y gall carbon glas ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, ac mae Cymru Sero Net yn cynnwys cynnig newydd i'n helpu i ddeall yn well sut y gallwn gyfrif y cyfraniad y mae'n ei wneud drwy'r Rhestr Nwyon Tŷ

Gwydr, a deall effeithiau posibl gweithgarwch dynol a newid yn yr hinsawdd ei hun ar gynefinoedd ac allyriadau carbon glas.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag CNC, y gweinyddiaethau eraill a'r gymuned wyddonol i ddeall y problemau a'r cyfleoedd yn well, a byddwn yn cydweithio gyda'r bwriad o sefydlu Partneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU ddechrau'r flwyddyn nesaf, i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn. Yng Nghymru, byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno cynllun tystiolaeth carbon glas i lywio partneriaeth y DU ar y naill law ac i bennu anghenion penodol Cymru am dystiolaeth ar y llall. Mae trafodaethau wedi dechrau ynghylch ffurfio gweithgor i ddatblygu'r cynllun tystiolaeth hwn.

Yn y cyfamser, drwy rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru a thrwy ddefnyddio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel sail ar gyfer ein penderfyniadau, byddwn yn parhau i reoli llawer o'r cynefinoedd hynny sy'n cynnal ac yn gwella carbon glas.



Nodyn Briffio i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Rheoli'r Amgylchedd Morol

Tachwedd 2021

Mae'r nodyn hwn yn ymdrin â'r cynnydd hyd yma yn nifer o feysydd gwaith allweddol CNC, ac mae hefyd yn tynnu sylw at rai rhwystrau a chyfleoedd i ddatblygu'r gwaith o reoli'r amgylchedd morol yn gynaliadwy ymhellach.

1. Rôl CNC mewn rheoli'r amgylchedd morol

Diben cyffredinol CNC yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r rôl hon yn ymestyn i'r amgylchedd morol, sy'n ffurfio bron i hanner tiriogaeth Cymru. Mae rôl CNC mewn perthynas â rheoli'r amgylchedd morol yn eang, gan gynnwys, er enghraifft: cyngor, tystiolaeth, rheoleiddio (gan gynnwys trwyddedu morol), monitro, rheoli perygl llifogydd / erydu arfordirol, ymateb i ddigwyddiadau, rheoli safleoedd gwarchoddedig, rheoli pysgodfeydd cocos (Cilfach Tywyn ac afon Dyfrdwy), a'r awdurdod mordwyo ar gyfer afon Dyfrdwy.

2. Y cynnydd hyd yma, a rhwystrau a chyfleoedd yn y dyfodol

Cydsynio a thrwyddedu morol

Mae CNC yn gyfrifol am drwyddedu morol ar ran Gweinidogion Cymru ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy ledled Parth Cymru. Er enghraifft, rhwng mis Mehefin 2020 a mis Tachwedd 2021, yn y sector adnewyddadwy morol, cyhoeddodd CNC 12 trwydded forol; mae pum trwydded yn ymwneud â gwaith adeiladu, newid neu wella sy'n gysylltiedig

â'r sector ynni adnewyddadwy, a chyhoeddwyd saith trwydded mewn perthynas â gwaith arolygu ar safleoedd prosiect. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer trwyddedu morol yng Nghymru.

Mae Tîm Trwyddedu Morol CNC hefyd yn darparu cyngor arbenigol cyn gwneud cais. Mae gan gyngor cyn gwneud cais fuddion amlwg i'r ymgeisydd, gan helpu i nodi materion ymlaen llaw a deall gofynion y broses drwydded forol, ac mae ganddo'r potensial i leihau'r cyfnod pennu ffurfiol. Er mwyn cefnogi cwsmeriaid, rydym hefyd wedi cynyddu faint o gynnwys gwe sydd ar gael ar y broses trwyddedu morol, a chanllawiau ar y dystiolaeth a'r gwaith asesu sy'n ofynnol i gyd-fynd â cheisiadau.

Er mwyn cefnogi prosiectau adnewyddadwy morol a lleihau'r baich gweinyddol, rydym wedi bod yn datblygu nifer o gytundebau ffyrdd o weithio rhwng CNC ac awdurdodau rheoleiddio eraill. Rydym yn parhau i rannu arfer gorau ag awdurdodau trwyddedu morol eraill. Mae hyn wedi bod o fudd arbennig i'r sector adnewyddadwy morol, lle roedd rhannu profiadau o brosiectau yn yr Alban yn helpu i lywio ein dull o reoli addasol.

Rhwystrau a chyfleoedd: Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng dyletswyddau a chyfrifoldebau rheoleiddio a all beri heriau i ddatblygwyr, ac sy'n gofyn am gydgysylltiad da gan y cyrff rheoleiddio. Mae angen cymeradwyaeth a thrwyddedau niferus ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, yn enwedig ar gyfer prosiectau ynni. Byddai'n fuddiol i sicrhau aliniad â chyfundrefnau rheoleiddio, er mwyn symleiddio agweddau arnynt, gan osgoi dyblygu ymdrech a darparu llwybrau cliriach ar gyfer mewnbwn gan randdeiliaid.

Mae pobl yn aml yn credu y dylai ceisiadau trwyddedu morol ar gyfer datblygiadau mewn meysydd o flaenoriaeth polisi allu cael eu blaenoriaethu. Fodd bynnag, rhaid i CNC asesu pob cais yn gadarn trwy ddilyn y broses benderfynu statudol, a'r broses asesu a chynghori ategol, sydd, gyda'i gilydd, yn darparu mesurau diogelu pwysig ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch dynol, yn ogystal â diogelwch gweithdrefnol a chyfreithiol. Mae cyflymder y broses bennu yn dibynnu'n bennaf ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan y datblygwr. Bydd mwy o ymgysylltiad mewn cyngor cyn gwneud cais, a bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, yn cefnogi cyflwyno ceisiadau trwydded cadarn ac yn helpu i leihau'r amserlen ar gyfer pennu cais.

Rhwystyr allweddol rhag cael cydsyniadau ar gyfer ynni adnewyddadwy morol yw'r ansicrwydd ynghylch effeithiau amgylcheddol allweddol, sy'n deillio o brinder data amgylcheddol sylfaenol, a diffyg tystiolaeth uniongyrchol o effeithiau dyfeisiau ynni penodol. Ymdrinnir â chyfleoedd perthnasol pellach isod o dan y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr a chynllunio morol.

Ynni adnewyddadwy morol a'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr

Mae'r cyfuniad o swyddogaethau rheoleiddio a chynghori yn gosod CNC ar y blaen o ran cefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy morol sy'n gynaliadwy yng Nghymru, sydd â photensial mawr i gefnogi targedau lleihau carbon ymhellach. Yn 2019, fe wnaethom sefydlu Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr CNC fel ymateb uniongyrchol i raddfa gynyddol datblygiadau ynni adnewyddadwy morol, a diddordeb gwleidyddol, cyhoeddus a pholisi uwch yng Nghymru, gan gynnwys cyfarfodydd gyda Phrif Weinidog Cymru yn 2019 i archwilio datblygu ein rôl.

Nod cyffredinol y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr yw lleihau'r risgiau amgylcheddol a chydsynio sy'n gysylltiedig â datblygiadau ynni adnewyddadwy morol. Yn benodol, mae'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr wedi magu gallu ac arbenigedd CNC i gyflawni'r canlynol:

- Rheoli achosion a chyngor cyn ymgeisio yn well
- Datblygu swyddi allweddol a chanllawiau
- Adnodd staff ymroddedig ychwanegol sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ynni adnewyddadwy morol – datblygu a chynnal parhad yr arbenigedd angenrheidiol
- Tystiolaeth feirniadol i leihau ansicrwydd cydsynio a mynd i'r afael â'r gwrthdaro canfyddedig rhwng yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth
- Mwy o ymgysylltiad allanol â rhanddeiliaid allweddol

Ar hyn o bryd, rydym yn cynghori ar 15 o gynlluniau a phrosiectau ynni adnewyddadwy morol mawr a/neu newydd a chymhleth. Yn ogystal â hyn, mae'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr yn galluogi datblygu prosiectau canllaw a thystiolaeth allweddol – er enghraifft, datblygu canllawiau ar ddefnyddio rheoli addasol fel offeryn a all ganiatáu i ddatblygiadau gael cydsyniad pan nad yw'r effeithiau amgylcheddol wedi'u deall yn dda.

Mae CNC hefyd yn ymgysylltu â mentrau strategol ledled Cymru a'r DU i wella'r modd y darperir ynni adnewyddadwy morol, megis: Rhaglen Tystiolaeth a Newid Ynni Gwynt ar y Môr Ystad y Goron, a Rhaglen Ynni Morol a Her Morlyn Llanw Llywodraeth Cymru.

Rhwystrau a chyfleoedd: Ariennir y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr dros dro tan fis Mawrth 2022, pan ddaw'r buddion i ben. Bydd nifer y cynlluniau a'r prosiectau y bydd CNC yn cynghori arnynt ac yn eu rheoleiddio yn parhau i gynyddu'n sylweddol, yn enwedig gyda'r gobaith o ffermydd gwynt alltraeth sefydlog ac arnofiol newydd a'r Her Morlyn Llanw. Mae angen buddsoddi yn CNC i sicrhau dull y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr o gyflawni ynni adnewyddadwy morol yn y tymor hwy i ateb y galw hwn am ynni adnewyddadwy morol, ac ar yr un pryd i gefnogi blaenoriaethau eraill y llywodraeth ar gyfer yr amgylchedd. Er mwyn dangos yr anghenion o ran capasiti, mae ymgysylltiad cyfredol CNC ym mhrosiect fferm wynt alltraeth Awel y Môr wedi bod yn mynd rhagddo ers 2019, a hyd yma mae'n cyfateb i 320 awr o amser cynghorydd.

Mae angen buddsoddiad parhaus a chynyddol hefyd i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr amgylchedd morol, er mwyn helpu i leihau'r risg amgylcheddol ac i hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithlon ac yn amserol ac, yn y pen draw, o roi prosiectau ar waith. Mae hwn yn gyfrifoldeb ar y cyd i'r llywodraeth, datblygwyr ac CNC.

CNC yw'r ymgynghorai statudol ar gyfer cyngor ar gydsyniadau datblygu a thrwyddedau morol yn nyfroedd Cymru o fewn 12 milltir forol. Mae gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y cyfrifoldeb hwn yn ardal forol alltraeth Cymru y tu hwnt i 12 milltir forol. Mae swyddogaethau tebyg wedi cael eu symleiddio'n llwyddiannus o amgylch yr Alban a Lloegr, gyda chyfrifoldebau cynghori wedi'u dirprwyo i NatureScot a Natural England. Mae hyn wedi lleihau cymhlethdod ac wedi cynyddu effeithlonrwydd i ddatblygwyr, rheoleiddwyr a chynghorwyr. Gellid mabwysiadu trefniant tebyg yn ddefnyddiol i fynd i'r afael â'r anghysondeb o amgylch dyfroedd Cymru.

Cynllunio morol

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu'r prif fframwaith ar gyfer datblygu morol cynaliadwy. Mae CNC wedi gwneud gwaith sylweddol i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu canllawiau gweithdrefnol trwyddedu morol, swyddi cynghori, hyfforddi staff, a llawlyfr gwaith achos morol i gefnogi cymhwyso egwyddorion ymgynghorol a pholisi'r cynllun yn ein cyngor.

Rhwystrau a chyfleoedd: Bydd cynllunio sectoraidd strategol a datblygu dull gofodol ar gyfer cynllunio morol yn darparu mwy o gymorth i nodi ardaloedd adnoddau allweddol, ochr yn ochr â sensitifrwydd a chyfyngiadau, i helpu i leihau risgiau cydsynio trwy lywio datblygiadau i leoliadau lle mae'r effeithiau ar yr amgylchedd a defnyddwyr eraill yn is. Mae CNC bellach yn cymryd rôl arweiniol wrth ddarparu'r dystiolaeth i gefnogi Llywodraeth

Cymru i ddatblygu cynllunio sy'n fwy rhagnodol yn ofodol, trwy nodi'r ystyriaethau amgylcheddol gofodol ar gyfer gwahanol sectorau.

Casglu tystiolaeth forol a'r bylchau mewn tystiolaeth

Ers ei greu, mae CNC wedi ymrwymo'n gryf i fod yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chynghor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel.

Mae [Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru](#) (2019), a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac CNC, yn amlinellu blaenoriaethau'r dystiolaeth forol strategol lefel uchel sydd eu hangen i gefnogi polisïau a chynlluniau morol yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer casglu tystiolaeth, gan gynnwys ymchwil a datblygu, monitro a gwyliadwriaeth, a dadansoddi a chyfuno eilaidd, gan wella cydweithredu ar yr un pryd.

Yn CNC, mae'r Rhaglen Tystiolaeth Forol ac Arfordirol yn cynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o anghenion tystiolaeth yn flynyddol. Mae'r Rhaglen Monitro Morol hefyd yn cael ei blaenoriaethu, gyda chylch monitro rheolaidd, gan ganolbwyntio ar y Rheoliadau Fframwaith Dŵr (2019) ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyrff cadwraeth natur rhyngwladol, y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a phartneriaid eraill yn y DU wedi adolygu opsiynau monitro blaenoriaeth ar sail risg ar gyfer y mwyafrif o grwpiau cynefinoedd a rhywogaethau morol y DU. Datblygwyd achos busnes i gefnogi'r holl opsiynau monitro a ffeirir ac a gyflwynwyd i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

Mae blaenoriaethau tystiolaeth forol CNC ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys monitro, coladu gwybodaeth sylfaenol i lywio sawl maes gwaith (e.e. dosraniadau mamaliaid morol, mapio cynefinoedd), gwaith i lywio cynghor ynni adnewyddadwy ar y môr, ac astudiaethau carbon glas.

Rydym yn casglu ein tystiolaeth trwy amrywiaeth o lwybrau, gan gynnwys gwaith mewnol, gwaith wedi'i gontractio'n allanol, prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion, a chydweithrediadau â sefydliadau eraill, gan gynnwys y byd academiaidd, y llywodraeth a diwydiant.

Rydym yn rhagweld y bydd o leiaf 15 o adroddiadau tystiolaeth forol ac arfordirol yn cael eu cynhyrchu yn 2021. Cyhoeddir mwyafrif ein hadroddiadau ar ein gwefan yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiadau tystiolaeth morol ac arfordirol](#). Cynhyrchwyd set arall o adroddiadau yn 2020, ac maent bellach yn cael eu trosi i fformat hygyrch cyn cael eu lanlwytho i'n gwefan.

Rhwystrau a chyfleoedd: Mae'n sylfaenol bwysig ein bod yn deall cyflwr ein hamgylchedd morol ac arfordirol os ydym am wneud penderfyniadau cadarn ynghylch rheoli. Fodd bynnag, mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer monitro morol yn llawer is na'r hyn sy'n ofynnol. Er enghraifft, yr opsiwn a ffeirir i Gymru ar gyfer monitro benthig ar y lan yw ychydig dros £3 miliwn (gan gynnwys staff ac adnoddau presennol). Ac eithrio staff, byddai hynny'n rhoi cyfanswm o oddeutu £2 filiwn. Mae'r adnoddau ar gyfer monitro morol wedi lleihau dros y naw mlynedd diwethaf.

Mae llawer o'n hanghenion tystiolaeth yn broblemau cymhleth y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw gyda rhaglenni ymchwil aml-flwyddyn. Yn anffodus, mae'r cylch cyllido blynyddol yn ei gwneud hi'n anodd iawn i CNC alluogi hyn.

Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio gweithio gyda Phlattform Amgylchedd Cymru i greu gwell cysylltiadau â'r byd academiaidd ac i ledaenu ein hanghenion ymchwil.

Ardaloedd Morol Gwarchodedig, cadernid ecosystemau, a'u hadfer

Mae gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn flaenoriaeth i CNC er mwyn sicrhau cadernid ecosystemau morol. Mae ystod eang o waith cynghori, tystiolaeth, rheoleiddio a gweithredol CNC yn cyfrannu at hyn. Rydym yn cyflawni gweithredoedd yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru fel mater o drefn ar draws ein swyddogaethau. Roeddem hefyd yn gallu defnyddio cyllid cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020/21 i ymgymryd ag ystod o welliannau i safleoedd, gan gynnwys, er enghraifft, gwella cynefinoedd artiffisial mewn morgloddiau o amgylch Aberdaugleddau a gwaith dichonoldeb i archwilio adfer morfeydd heli yng Nglanfa Rhymni.

Mae CNC hefyd yn darparu cyngor a thystiolaeth i gefnogi prosiect Llywodraeth Cymru i gwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig trwy ddynodi Parthau Cadwraeth Forol.

Rhwystrau a chyfleoedd: Mae deall cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn hanfodol i lywio gweithredu priodol. Ar ôl cyhoeddi cyfres lawn o asesiadau cyflwr safle dangosol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn 2018, rydym yn agosáu at gwblhau prosiect i ddatblygu dangosyddion adrodd newydd i'w cymhwyso fel rhan o adolygiad llawn arfaethedig o gyngor amcan cadwraeth CNC ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn rhoi'r cyngor ac asesiadau gorau i gefnogi gwneud penderfyniadau ar weithgareddau mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn agos atynt.

Mae adfer yn ganolbwynt allweddol bellach ar gyfer cadernid ecosystemau morol, gan gynnwys ymrwymiad diweddar yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer rhaglen wedi'i thargedu i adfer cynefinoedd morfa heli a morwellt (a storfeydd carbon glas allweddol hefyd). Mae adfer gweithredol yn yr amgylchedd morol yn cyflwyno heriau ymarferol sylweddol ond, serch hynny, mae gwaith ar y gweill y gallwn ddysgu ohono a chymryd camau pellach yn ei sgil. Mae CNC eisoes yn arwain ar brosiect a ariennir gan Gronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n mynd ati i adfer cynefin wystrys brodorol yn Aberdaugleddau, gan bwysleisio pwysigrwydd dysgu sut i dyfu prosiectau o'r fath. Mae prosiect partneriaeth Natur am Byth yn cynnwys elfen forol uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar adfer glaswellt y môr, wystrys, gwyntyll môr pinc a chimychiaid coch. Rydym hefyd wedi cyhoeddi mapiau cyfle sy'n nodi ardaloedd posibl ar gyfer adfer ystod o gynefinoedd morol ac arfordirol (gweler Atodiad 2).

Yn fwyaf diweddar, mae CNC wedi dechrau datblygu blaenraglen waith integredig wedi'i blaenoriaethu ar gyfer adfer gweithredol sy'n adlewyrchu'r goblygiadau ymarferol, tystiolaeth, cyngor a rheoliadol ehangach ar gyfer CNC sydd ynghlwm wrth y maes hwn sy'n datblygu.

Carbon glas

Mae CNC wedi cynnal ymchwil bwysig mewn perthynas â charbon glas i gefnogi gwella storfeydd carbon glas yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol:

- Meintioli potensial carbon glas amgylchedd morol ac arfordirol Cymru (gweler Atodiad 1)
- Ymchwil gyfredol i nodi storio a dal carbon ymhellach ar lefel nodwedd ac Ardal Forol Warchoddedig ar draws y rhwydwaith; mae'r gwaith hwn hefyd yn nodi opsiynau rheoli i wella'r ddalfa garbon yng Nghymru

Rhwystrau a chyfleoedd: Nid oes fframwaith ar gyfer amddiffyn carbon glas fel y cyfryw ac felly mae angen ystyried gwella fel budd cymdeithasol ehangach sy'n deillio o reolaeth effeithiol a chynaliadwy o'r amgylchedd morol ac sy'n gwella cadernid ecosystemau, bioamrywiaeth, a maint a chyflwr cynefinoedd. Rydym wedi blaenoriaethu blaenraglen waith i ymgorffori'r ystyriaeth o garbon glas ym mhob agwedd ar ein cyngor, ac i ddatblygu ymhellach y dystiolaeth ar sut a ble y gallwn wella dal a storio carbon glas mewn ardaloedd morol ac arfordirol.

Rheoli'r arfordir

Mae'r rhyngwyneb arfordirol yn ardal lle mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar eu mwyaf difrifol yn sgil cynnydd yn lefel y môr. Mae CNC wedi sefydlu Rhaglen Rheoli Arfordirol Integredig i ddod â gwahanol ffyrddau gwaith ynghyd yn CNC, gan gynnwys rheoli perygl llifogydd, bioamrywiaeth, cynllunio, rheoleiddio a mynediad, i fynd i'r afael â her benodol y newid yn yr hinsawdd ar yr arfordir. Mae'r rhaglen yn cyflawni ystod eang o gamau, gan gynnwys, er enghraifft, dull cydgysylltiedig o asesu canllawiau a mynd i'r afael â gwasgfa arfordirol, gan ystyried datblygiad polisi diweddar Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Rhwystrau a chyfleoedd: Mae'r ardal arfordirol yn destun fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol cymhleth iawn. Er mwyn mynd i'r afael â her allweddol y newid yn yr hinsawdd a lefelau'r môr yn codi, bydd angen mynd i'r afael â nifer o rwystrau, ac mae angen deialog ac ymgysylltu sylweddol â chymunedau lleol i nodi atebion effeithiol i'r materion sy'n eu hwynebu. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ddogfennau anstatudol, ond dylent fod yn offeryn hanfodol wrth alluogi rheolaeth gynaliadwy o'n harfordir. Mae atebion ar sail natur, fel adfer cynefinoedd arfordirol (e.e. morfeydd heli) neu ddefnyddio technegau fel maeth traeth, yn darparu cyfleoedd i sicrhau nifer o fuddion o ran amddiffyn yr arfordir, enillion mewn bioamrywiaeth, a charbon glas.


Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu ag ystod o rhanddeiliaid morol ac arfordirol yn elfen graidd o waith strategol a gweithredol CNC. Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn ystod o bartneriaethau, gan gynnwys, er enghraifft, Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol a'r Grŵp Cyngori Strategol Cydsynio ar y Môr. Cyhoeddwyd y Datganiad Ardal Forol gennym yn 2019, sef penllanw ein rhaglen ymgysylltu ag ystod o'n partneriaid i nodi'r blaenoriaethau a chyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli'r ardal forol yn gynaliadwy. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd i gyflawni'r camau a nodwyd yn y Datganiad Ardal.

Rhwystrau a chyfleoedd: Rhwystr cydnabyddedig i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydweithio yw diffyg gallu ymhlith partneriaid morol yng Nghymru, ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau arfordirol o'r heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan amgylcheddau morol ac arfordirol. Cydnabuwyd hyn yng ngwaith Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol o amgylch adferiad glas. Mae cyfle i ddylanwadu ar ffrydiau cyllido yng Nghymru mewn ffordd a all adeiladu gallu ac ymwybyddiaeth, ac felly gefnogi ymgysylltiad a chyflawni prosiectau a gweithgareddau morol ac arfordirol yn fwy gweithredol.

Atodiad 1: Carbon ym moroedd Cymru

Carbon ym moroedd Cymru



Cyfanswm dal a storio
O leiaf 26,100 o dunelli o garbon y flwyddyn

- £6.6 miliwn
- 64,800 o allyriadau blynyddol
- 115,600 o deithiau dwyffordd Caerdydd - Ynsoedd Canaria

Cyfanswm y storffeydd
O leiaf 113 o filiynau o dunelli o garbon yn y tymor hir (gan gynnwys 101 o filiynau o dunelli wedi'u storio ar ffurf carbonad)

- 10 mlynedd o allyriadau carbon Cymru
- 170% o'r carbon sydd wedi'i storio yng nghoetiroedd Cymru

Bylchau yn y dystiolaeth


- Cyfraddau ac amrywiadau
- Sut mae gweithgareddau'n newid y broses dal a storio
- Sut mae cyflwr cynefinoedd yn newid storffeydd a'r broses dal a storio

Dal a storio mwy o garbon

- Diogelu
- Adfer
- Cyllid

Atodiad 2: Buddion cynefinoedd morol ac arfordirol wedi'u hadfer

Buddion cynefinoedd morol ac arfordirol wedi'u hadfer





Ministerial Priorities for the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

We are writing in response to the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee's call for evidence on priorities for the term of the sixth Senedd. Marine Energy Wales (MEW) welcomes the opportunity to represent our membership and provide feedback to this consultation around the opportunity of emerging offshore renewable energy in Wales. This is a sector which can deliver a meaningful contribution to the clean energy transition for Wales, anchor a burgeoning sector on Welsh shores providing economic development, regeneration and skills in Wales as well as a fulfilling a significant role in supporting a strong, green recovery from Covid-19 and a robust energy solution for climate change.

This consultation response seeks to provide a brief summary of the industry, to highlight the importance of the emerging offshore renewables sector to drive decarbonisation and the green recovery here in Wales, and to identify the Ministerial priorities that we would like to see in the next 12-18 months.

Marine Energy Wales

Marine Energy Wales (MEW) is *the* industry led stakeholder group representing the wave, tidal and floating offshore wind industries in Wales. **MEW brings together technology developers, test centres, wider sectoral alliances such as the Celtic Sea Developers Alliance and Tidal Range Alliance, the supply chain, academia and the public sector to establish Wales as a global leader in sustainable emerging offshore renewable generation.** MEW participate in, and contribute advice to key strategic projects underway in support of the sector such as MEECE, Tiger, Selkie, as well as the Celtic Sea Cluster and Celtic Sea Developer Alliance. MEW's vision is to create a thriving and diverse emerging offshore renewables industry in Wales, making a significant contribution to a low carbon economy.

The Welsh Opportunity

MEW champions a green economic recovery with emerging offshore renewable energy playing a pivotal role. Harnessing the power of the sea will provide a clean, low carbon and sustainable source to meet the UK's energy demands and contribute to a successful, resilient and diverse UK energy mix which aims towards net zero. Wales has a unique offer with abundant tidal, wave and wind resource right on our doorstep.

- **A Significant Resource** – Wales has significant, diverse wave, wind, tidal stream and tidal range resources. The UK's practical resource has been independently estimated at 15GW for tidal stream



and 23GW for wave energy¹ and approaching 20GW for tidal range including 6GW in Wales. There could be at least 50GW of electricity capacity available in the Celtic Sea in Irish and UK waters for floating wind².

- **People** – Wales has an experienced and skilled supply chain with extensive industrial and energy sector experience, which has already seen diversification into construction and deployment of emerging offshore renewable devices. With over 256 direct FTEs (with further indirect supply chain multipliers increasing this number), the sector is providing skilled employment, regeneration of peripheral communities and ports, and is encouraging low carbon economic growth in coastal regions across the country. Floating offshore wind alone is expected to generate 3000 jobs by 2030 *if* the early mover opportunity is seized. The Welsh supply chain has the capability, capacity and ambition to deliver emerging offshore renewable projects and the burgeoning industry offers real opportunities for local companies to diversify.
- **Developers** – There are 20 emerging offshore renewable technology and project developers actively progressing projects in Wales with seabed agreements in place for over 500MW of emerging offshore energy sites.
- **Test Centre Network and Demonstration Zones** – A number of test and demonstration sites are under development in Wales including the Pembrokeshire and Anglesey Morlais array scale Demonstration Zones, Marine Energy Test Area in Pembroke Dock and Ramsey Sound. These projects will provide test beds for innovative wave, tidal stream and floating wind technologies, enabling valuable learning across the sector and adding to the UK's world-leading test centre network. These will continue to attract not only the interests of UK based technology developers, but also further the inward investment successes already achieved from countries including Australia, Sweden, France and Spain.
- **Technology and Research** – Expert academic and world-class emerging offshore renewables research facilities at Swansea, Bangor and Cardiff universities including the Selkie Project and SEACAMS2.
- **Infrastructure** – Wales has eight strategically located ports and facilities sited along the North, West and South coast. R&D trials are currently underway to assess the potential opportunity that hydrogen production, storage and handling may also represent to Wales. There is significant storage and pipeline capacity at a number of Welsh ports which could represent a solution for alternative use of emerging offshore energy power; to be used to produce **green hydrogen** instead of being exported to grid. This green hydrogen could contribute to Ofgem's minimum 80TWh hydrogen requirement to decarbonise shipping and HGV sectors by 2050 in net zero scenarios³.
- **Grid Connection** – Wales has accessible 400kV transmission lines adjacent to resource areas which makes it stand out compared to other areas of the UK and Europe. Wales is a strategically important net exporter of power to the UK grid, generating more than double the electricity it consumes.
- **Two Strategic Alliances** - The Celtic Sea Alliance is a collaboration programme between Cornwall, Wales and Ireland to progress the development of utility scale Floating Offshore Wind development

¹ ORE Catapult (2018) [Tidal stream and wave energy, cost reduction and industrial benefit](#)

